PENNOD 8

Casgliadau a Dewisiadau Polisi Allweddol

8.1 Cyflwyniad

8.1.1 Mae'r ddogfen ymgynghorol hon, ac adroddiadau ategol RAS a RASCO, wedi nodi amrywiaeth o gyfeiriadau polisi strategol a materion allweddol cysylltiedig (cenedlaethol, trawsffiniol a rhanbarth benodol), y bydd penderfyniadau arnynt yn pennu datblygiad meysydd awyr a gwasanaethau awyr yng Nghymru dros y deng mlynedd ar hugain nesaf. Mae'r adran hon yn ceisio dod â'r holl ddewisiadau polisi allweddol hyn ynghyd ar ffurf strategaeth fras ar gyfer y diwydiant awyrennau yng Nghymru ynghyd â chyfres o gwestiynau strwythuredig y mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ceisio cael ymatebion iddynt i lywio'r gwaith o baratoi'r Papur Gwyn arfaethedig ar Drafnidiaeth yn yr Awyr yng Nghymru.

8.2 Strategaeth Ddrafft i Gymru

8.2.1 Bwriedir i'r strategaeth ddrafft ddarparu pwyntiau i'w trafod, gan gynnig amrywiaeth eang o opsiynau ar gyfer pecynnau posibl o fesurau a allai helpu i lunio strategaeth yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau awyr a meysydd awyr yng Nghymru. Ni fwriadwn i'r opsiynau hyn ddylanwadu ar ganlyniadau'r ymgynghoriad hwn na chyd-destun y Papur Gwyn arfaethedig ar Drafnidiaeth Awyr, ac ni fwriedir i'r opsiynau fod yn gynhwysfawr. Yn hytrach bwriedir iddynt osod rhai o'r ymagweddau a allai lunio sail penderfyniadau polisi, gan helpu i amlinellu'r ystod o ddewisiadau a ddaw yn sgîl y ddogfen hon.

8.2.2 Gellid mabwysiadu rhai opsiynau heb ddewis unrhyw ymagwedd polisi cenedlaethol penodol. Er enghraifft byddai gwella hygyrchedd ar y tir yn cynnig buddiannau i deithwyr o dan fframwaith polisi oedd yn ceisio lleihau graddau'r galw am wasanaethau awyr allan o Gymru yn ogystal â senario oedd yn ceisio annog twf gwasanaethau allan o feysydd awyr Cymru. Ond bydd eraill yn dibynnu ar y senario polisi a ddewisir.

Datblygu Llwybrau Teithio

8.2.3 Cynnal a, lle y bo'n bosibl, ehangu'r ystod bresennol o wasanaethau domestig craidd a theithiau byr i Ewrop ym maes awyr Rhyngwladol Caerdydd. Cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu rhwydweithiau llwybrau teithio mewn meysydd awyr y tu allan i Gymru sy'n gwasanaethu traffig Cymru (Bryste a meysydd awyr Llundain ar gyfer galw De Cymru, Manceinion ar gyfer Gogledd Cymru a Birmingham ar gyfer canolbarth Cymru).

8.2.4 Datblygu maes awyr Rhyngwladol Caerdydd fel canolfan ddomestig gyda gwasanaethau bwydo domestig o ardaloedd anghysbell. Buddsoddiad cyhoeddus i gynorthwyo gwasanaethau o fewn Cymru yn

bennaf o ogledd orllewin Cymru, ond gyda phosibilrwydd o wasanaethau ychwanegol o dde orllewin, canolbarth gorllewin a gogledd ddwyrain Cymru.

8.2.5 Annog datblygu gwasanaethau newydd a gwasanaethau amlach i bob canolfan allweddol ar y Cyfandir a nifer o ganolfannau busnes mawr yn Ewrop. Datblygiad tymor canolig i hir o wasanaethau uniongyrchol wedi'u trefnu i ganolfan ar Arfordir Dwyreiniol yr UD a Toronto.

8.2.6 Gwella'r rhwydwaith siarter sy'n gryf eisoes, wrth gyflwyno amrywiaeth ehangach o wasanaethau teithiau byr ac ychwanegu cyrchfannau teithiau hir dethol.

Seilwaith Meysydd Awyr

8.2.7 Annog ehangu Caerdydd, drwy ganiatáu datblygu capasiti seilwaith, a chynorthwyo mentrau hygyrchedd ar y tir.

8.2.8 Sicrhau bod gan feysydd awyr llai Cymru y seilwaith weithredu angenrheidiol i ddarparu ar gyfer llwybrau wedi'u trefnu i mewn i Gymru os caiff y rhain eu datblygu, a thacsis awyr a'r diwydiant awyrennau yn gyffredinol.

8.2.9 Cynorthwyo'r gwaith o ehangu gweithrediadau cynnal a chadw awyrennau a gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag awyrofod ym maes awyr Caerdydd ac yn Sain Tathan.

Gwella Hygyrchedd ar y Tir

8.2.10 Gwella hygyrchedd ar y tir i faes awyr Rhyngwladol Caerdydd drwy rai o'r canlynol neu bob un ohonynt:

- Ffordd fynediad newydd, alinio'r A48 yn well a mesurau i leihau tagfeydd ar yr A4050.
- Cyswllt bws gwennol o orsaf y Rhws; gwasanaethau rheilffordd amlach wrth i'r maes awyr dyfu a gwasanaethau bws, bws mini a rhannu tacsis gwell i wella rhaniad modd cludiant cyhoeddus.
- Gwella hygyrchedd ar y tir i Heathrow/Gatwick drwy gyflwyno gwasanaethau rheilffordd gwell (cysylltiad gorllewin Heathrow neu drwy gyfnewidfa Reading).
- Gwella cysylltiadau ffyrdd rhwng gogledd Cymru a Maes Awyr Manceinion (drwy gysylltiad Western).

8.3 Cwestiynau i Ymgynghorai

8.3.1 Mae'n bwysig eich bod yn cwblhau'r holiadau atodedig oherwydd bydd hyn yn ein galluogi i ddatblygu ymateb wedi'i fesur i amrywiaeth o faterion allweddol, ynghyd â dadansoddiad o'r ymatebion ysgrifenedig mwy ansoddol sy'n codi o'r cwestiynau a nodir yn y ddogfen hon, a gesglir ynghyd ar ddiwedd yr adran hon.

8.3.2 Wrth ymateb i'r olaf byddai'n ddefnyddiol os gallech strwythuro eich ymateb i adlewyrchu'r ffordd y caiff y cwestiynau allweddol eu gosod; bydd yn helpu'n sylweddol wrth ddadansoddi a chyflwyno adroddiad ar yr ymatebion. Wrth gwrs, os oes materion sy'n bwysig i chi nad yw'r cwestiynau'n ymdrin â hwy, dylech nodi'r rhain yn glir hefyd. Wrth wneud hyn dylech gofio bod unrhyw sylwadau a wnaed ar faterion cenedlaethol ehangach a nodir yn y Ddogfen Ymgynghorol Ranbarthol "The Future of Aviation" wedi'u dadansoddi ac yn cael eu defnyddio i helpu i baratoi'r agweddau hynny o'r Papur Gwyn.

8.3.3 Y cwestiynau canlynol yw'r rhai hynny y mae'r Adran Drafnidiaeth a Llywodraeth Cenedlaethol Cymru yn ceisio cael ymatebion arnynt yn seiliedig ar y ddogfen ymgynghorol hon. Fe'ch gwahoddir i ymateb i rai o'r cwestiynau neu i bob un ohonynt ar wahân i'r holiadur sydd ynghlwm â'r ddogfen hon.

SENARIOS POLISI CENEDLAETHOL

Er na fwriedir i'n Senarios Polisi Cenedlaethol gael eu hystyried fel datganiadau pendant o bolisi posibl y Llywodraeth, maent yn darparu modd o archwilio ymagweddau polisi amgen eang.

1 Pa rai, os o gwbl, o'r Senarios Polisi Cenedlaethol y credwch ddylai ffurfio sail strategaeth meysydd awyr cenedlaethol Llywodraeth y DU hyd at 2003 a pham? Gallai'r ystyriaethau gynnwys:
- gwella dewis y defnyddiwr a hygyrchedd i wasanaethau awyr;
- meithrin diwydiant awyrennau cryf a chystadleuol;
- hwyluso'r ffordd i fusnesau presennol gystadlu'n effeithiol mewn marchnadoedd byd-eang;
- denu mewnfuddsoddiad a mewndwristiaeth;
- sicrhau bod y diwydiant awyrennau yn datblygu'n gynaliadwy a lleihau effeithiau twf ar yr amgylchedd;
- lleihau'r pellter y mae'n rhaid i bobl ei deithio i'r eithaf;
- lleihau tagfeydd; ac
- annog defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus.

2 Os ydych yn credu y dylid darparu capasiti ychwanegol yn Ne Ddwyrain Lloegr i ddiwallu anghenion teithwyr yn yr awyr rhanbarthol sy'n rhynglinellu neu sy'n defnyddio gwasanaethau o feysydd awyr Llundain drwy ddulliau teithio ar y tir:

- faint o gapasiti rydych chi'n credu y dylid ei ddarparu; a
- ble yn Ne Ddwyrain Lloegr y dylid ei leoli?

3 Pa rai o'r senarios fydd yn gwella'r dewis i ddefnyddwyr a hygyrchedd i wasanaethau yn:
- y DU gyfan; a
- Cymru

4 A oes unrhyw senarios polisi eraill, yn cynnwys unrhyw gyfuniad o'r rhai a nodwyd yn y ddogfen, a fyddai'n cwrdd â'ch dyheadau ar gyfer datblygu gwasanaethau awyr rhanbarthol a meysydd awyr yng Nghymru orau?

5 Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i gyflwyno polisïau ar gyfer y diwydiant awyrennau sifil a meysydd awyr sy'n gynaliadwy. Esboniwch pam y credwch mai eich dewis senario sy'n cynorthwyo amcan cynaliadwy'r Llywodraeth orau?

6 Pa rai o'r dulliau polisi a nodwyd ym Mhennod 3 y credwch sy'n hanfodol wrth ddarparu eich dewis senario? A oes unrhyw rai y credwch y gallai eich cynorthwyo wrth wneud hynny ond na chredwch eu bod yn hanfodol? A oes unrhyw ddulliau polisi na chânt eu cwmpasu ym Mhennod 3 y credwch y dylid eu hystyried?

LLEOLIAD CAPASITI MEYSYDD AWYR

1 Mae'r ddogfen hon wedi disgrifio sut y gellid datblygu meysydd awyr yn y rhanbarth, os yw'r polisi am ddiwallu'r galw. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar yr awgrymiadau hyn ar gyfer seilwaith newydd?

2 Os yw eich dewis strategaeth ar gyfer Cymru yn cynnwys diwallu'r twf mewn gwasanaethau awyr, beth fyddai'r ffordd orau o ddiwallu'r lefelau o dwf a ragwelir a pha fath o ddatblygiad maes awyr y dylid ei gefnogi er mwyn cyflawni hyn?

3 Os nad yw, a oes angen pob un o'r meysydd awyr presennol ar Gymru ac a oes yna unrhyw feysydd awyr penodol y dylid cyfyngu ar eu datblygiad a pham?

4 Os ydych o'r farn y dylai Cymru geisio diwallu ei galw ei hun (ac anwybyddu'r galw o Dde Orllewin Lloegr, Canolbarth Lloegr a Gogledd Lloegr) sut y gellir cyflawni hyn orau?

- A ellir datblygu'r meysydd awyr presennol i ddarparu capasiti digonol?

5 A yw'n bwysig sicrhau y dylid diwallu'r galw yn uniongyrchol o Gymru, neu a ellir bodloni anghenion y rhanbarth drwy gyfeirio teithwyr i rynglinellu mewn canolfannau mewn rhannau eraill o'r DU neu gyfandir Ewrop

CYSTADLEUAETH NEU DDATBLYGIAD CYFLENWOL

1 A oes yna gyfle i sicrhau partneriaethau gwell rhwng meysydd awyr, cwmnïau awyrennau a rhanddeiliaid o'r sector cyhoeddus er mwyn meithrin buddiannau economaidd ehangach Cymru?

2 A yw'n well cael cystadleuaeth yn hytrach na datblygiad cyflenwol bob tro? A gredwch fod yna amgylchiadau lle byddai'r ail ymagwedd yn dod â buddiannau economaidd neu fuddiannau eraill ehangach yn eu sgîl?

BUDDIANNAU ECONOMAIDD

1 Pa mor bwysig yw cyfraniad y diwydiant awyrennau i economi Cymru. Sut a lle y gellir sicrhau'r buddiannau?

2 Pa rwystrau y dylid mynd i'r afael â hwy os yw pobl ddi-waith sydd ar fudd-daliadau, yn arbennig mewn ardaloedd lle ceir lefelau isel o gyflogaeth, am fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth a ddaw yn sgîl twf yn y gwasanaethau awyrennau a meysydd awyr? A oes unrhyw atebion i hyn?

3 Pa systemau neu brosesau fydd yn helpu i wella cysylltiadau rhwng cyflogwyr yn y diwydiant awyrennau a chanolwyr sy'n ceisio cynorthwyo pobl ddi-waith a pham?

4 Sut rôl y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru ei mabwysiadu er mwyn cyflawni hyn a beth ddylai fod yn flaenoriaethau iddynt? Pa brosesau sydd ar gael iddynt gefnogi unrhyw ymagwedd y cytunir arni?

5 A fyddai cysylltiadau awyr gwell yn helpu o ran:
- cynyddu nifer y twristiaid sy'n ymweld â Chymru?
- lleihau'r ddibyniaeth ar Lundain fel y prif bwynt diddordeb i dwristiaid sy'n cyrraedd yma mewn awyren?

6 Os credwch y byddai hyn yn helpu, pa fesurau y gallai'r Llywodraeth, buddiannau twristiaeth rhanbarthol a'r diwydiant awyrennau eu cymryd i hwyluso hyn?

7 A oes yna rôl ar gyfer meysydd awyr yng Nghymru fel ffocws ar gyfer clystyrau economaidd ac a ddylid annog clystyrau o'r fath?

8 Pa mor bwysig yw gwasanaethau cargo awyr ar gyfer amcanion economaidd Cymru? Pa fesurau sydd eu hangen i roi hyder i weithredwyr cludiant awyr a gweithredwyr post i gynllunio eu buddsoddiad hirdymor mewn cyfleusterau maes awyr? A ddylid gwarantu amseroedd yn ystod y nos ar gyfer cludiant awyr a'r post? A ddylai gwarantau o'r fath fod yn amodol ar safonau sŵn/allyriadau er mwyn gallu gweithredu'r awyren?

9 A oes cyfle i ddenu mwy o farchnad ryngwladol cynnal a chadw awyrennau y DU mewn meysydd awyr yng Nghymru a beth fyddai'r ffordd orau o gyflawni hyn? Beth fyddai manteision ac anfanteision annog twf yn y sector hwn?

10 Pa mor bwysig yw'r diwydiant awyrennau busnes ar gyfer mewnfuddsoddiadau ac amcanion economaidd eraill Cymru? Os na ellir diwallu anghenion y diwydiant awyrennau busnes mewn meysydd awyr mawr, sut y dylid diwallu anghenion y sector hwn?

11 Pa mor bwysig yw sicrhau bod y DU yn parhau i fod yn Borth awyrennau i Ewrop i'ch busnes/sefydliad chi?

12 A fyddai llacio polisi presennol y DU mewn cysylltiad â chytundebau gwasanaethau awyr rhyngwladol i ganiatáu 5ed Rhyddid anghyfyngedig o feysydd awyr rhanbarthol, yn cael effaith ar allu meysydd awyr yng Nghymru i ddenu gwasanaethau newydd?

CYNHWYSIANT CYMDEITHASOL

1 A all datblygu'r diwydiant awyrennau o fewn Cymru helpu i fynd i'r afael ag amddifadedd ac allgáu cymdeithasol?

2 Pa fesurau sydd eu hangen i sicrhau y caiff buddiannau twf yn y diwydiant trafnidiaeth awyr eu trosglwyddo i ardaloedd sy'n llai llwyddiannus yn economaidd yng Nghymru?

EFFAITH AMGYLCHEDDOL

1 A oes unrhyw effaith o'r Senarios Polisi Cenedlaethol neu'r projectau seilwaith a werthuswyd yn y ddogfen hon, sy'n annerbyniol yn eich barn chi?

2 A ellid rheoli neu leddfu'r anfanteision amgylcheddol hyn er mwyn eu lleihau i lefelau derbyniol? A oes gennych unrhyw safbwyntiau penodol ar hyn mewn cysylltiad â:

- sŵn (yn ystod y dydd a gyda'r nos);
- ansawdd aer (effeithiau traffig yn yr awyr a hygyrchedd ar y tir);
- cymryd tir ac eiddo (preswyl, amaethyddol, lleiniau tir glas, tirlun);
- bioamrywiaeth;
- newidiadau hinsawdd;
- effeithiau amgylcheddol eraill,

naill ai'n gyffredinol, neu mewn meysydd awyr penodol yng Nghymru.

3 A fyddech chi'n cefnogi'r senarios er mwyn diwallu'r galw gan ddefnyddwyr petaent yn cael eu gweithredu gyda thargedau gorfodadwy ar gyfer gwelliannau amgylcheddol (h.y. ansawdd aer, sŵn, rhannu dulliau cludiant cyhoeddus, arbedion ynni a lleihau gwastraff)?

4 A oes cyfiawnhad dros adolygu ffiniau lleiniau tir glas os ydynt yn effeithio ar feysydd awyr yng ngoleuni unrhyw rai o'r senarios. Beth fyddai'r manteision a'r anfanteision? A ddylid cael gwared ar feysydd awyr o leiniau tir glas yn gyfan gwbl?

HYGYRCHEDD AR Y TIR

1 A ddylid canolbwyntio unrhyw wariant cyhoeddus a allai fod ar gael i helpu i wella hygyrchedd ar y tir i feysydd awyr yng Nghymru ar wella hygyrchedd lleol neu rhyng-ranbarthol neu'r ddau, a pham?

2 O dan lawer o'n Senarios Polisi Cenedlaethol bydd cynnydd mawr yn nifer y teithwyr sy'n defnyddio meysydd awyr Cymru dros ein cyfnod rhagweld. Dengys ein dadansoddiad y bydd hyn yn rhoi pwysau sylweddol ar ddarpariaeth hygyrchedd ar y tir, yn arbennig cysylltiadau ffyrdd allweddol mewn nifer o leoliadau:

- A ddylid ymdrin â'r cyfyngiadau hygyrchedd ar y tir hyn?
- Pa gynlluniau a amlinellwyd yn y ddogfen yw'r rhai allweddol yn eich barn chi ar gyfer gwella hygyrchedd i'r meysydd awyr rhanbarthol a pha flaenoriaeth ddylid ei rhoi i brojectau eraill. Pa gynlluniau a gredwch na ddylid eu datblygu?
- A oes unrhyw gynlluniau hygyrchedd ar y tir a nodwyd yn y dadansoddiad rydych yn eu cefnogi neu'n eu gwrthwynebu? Rhowch eich rhesymau am hyn.
- A oes unrhyw welliannau hygyrchedd ar y tir y credwch y dylid eu hystyried fel rhagamodau cyn y gellir datblygu capasiti newydd mewn meysydd awyr o fewn ardal yr astudiaeth?
- Sut y dylid ariannu'r gwelliannau hygyrchedd ar y tir hyn?

3 Sut y gellid cynyddu cyfran hygyrchedd drwy gludiant cyhoeddus i feysydd awyr?

CYNNAL A CHADW AWYRENNAU

1 Mae Caerdydd eisoes yn gwasanaethu fel ffocws pwysig ar gyfer cynnal a chadw awyrennau a gweithgareddau cysylltiedig; sut y gellir cael y gorau o botensial y sector hwn drwy Gymru gyfan? Ai'r Parc Awyrofod yn RAF Sain Tathan yw'r ffordd ymlaen, neu a oes dewisiadau eraill?

HYGYRCHEDD I LUNDAIN

1 O dan bob un o'n senarios Polisi Cenedlaethol, rydym yn rhagweld y bydd cyfran fawr o deithwyr o Gymru yn parhau i ddefnyddio meysydd awyr y tu allan i Gymru, Heathrow yn bennaf i deithwyr o Dde Cymru a Manceinion i deithwyr o Ogledd Cymru.

- A ddylid ystyried cynlluniau hygyrchedd ar y tir i hwyluso teithiau o Gymru i'r meysydd awyr hyn?
- Pa opsiynau ddylid eu hystyried er mwyn gwella hygyrchedd ar y tir i feysydd awyr y tu allan i Gymru i deithwyr o Gymru?
- Sut y dylid ariannu'r gwelliannau hygyrchedd ar y tir hyn?

2 Pa rôl fyddai gan gysylltiadau rheilffordd cyflymder cyflym (i Lundain yn bennaf) yn hytrach na gwasanaethau awyr posibl o Gymru i Lundain?

3 A fyddai'n bosibl gwneud gwasanaeth o Gaerdydd i Ddinas Llundain yn ymarferol?

GWASANAETHAU AWYR DOMESTIG I GYMRU

1 A oes gennych chi farn ar ddefnyddio meysydd awyr llai o fewn y rhanbarth? Pa rôl allai'r meysydd awyr hyn ei chwarae (yn arbennig y rhai mewn ardaloedd anghysbell) o ran darparu gwasanaethau bwydo i Gaerdydd?

2 Pa wasanaethau awyr domestig fyddai'n fwyaf buddiol i Gymru, a pham?

3 Pa rôl allai gwasanaethau awyr mewnol ei chwarae o ran gwella cysylltiadau trafnidiaeth Cymru gyfan (gwella'r cysylltiadau rhwng y gogledd a'r de yn arbennig) ac a fyddai gwasanaethau o'r fath yn deilwng o gymhorthdal cyhoeddus?

STRATEGAETH Y DIWYDIANT AWYRENNAU I GYMRU

1 Ydych chi'n credu y byddai unrhyw werth i'r rhanbarth ddatblygu a diweddaru strategaeth y diwydiant awyrennau rhanbarth benodol? Os felly, beth ddylai fod yn amcanion iddo?

- dadansoddi darpariaethau'r Papur Gwyn ar Drafnidiaeth Awyr mewn cyd-destun rhanbarthol?
- darparu cynllun tymor byr ar gyfer darparu gwasanaethau awyr gwell a datblygiad meysydd awyr newydd yn y rhanbarth?
- sicrhau y caiff anghenion ac effeithiau'r diwydiant awyrennau eu hintegreiddio'n briodol â strategaethau rhanbarthol eraill ar economeg, defnydd tir, yr amgylchedd a thrafnidiaeth?